

Strategaeth y Chweched Senedd

Adolygiad interim

Mehfin 2023

1. Cefndir

1. Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Strategaeth y Chweched Senedd ("y Strategaeth"). Cafodd y gwaith o ddatblygu ein Strategaeth ei lywio gan ymgyngoriad gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd, sesiynau tystiolaeth ar COVID-19 ac adfer ar ôl COVID, a sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol.

2. Mae'r Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer 2021-2026 a sut y byddwn yn mesur cynnydd. Mae'n nodi materion trawsbynciol a meysydd â blaenoriaeth, ac yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i wneud y canlynol:

"Rhoi amser o'r neilltu o bryd i'w gilydd i fyfyrion ar y cynnydd a wnaed tuag at y weledigaeth gyffredinol, pa gyfraniad rydym wedi'i wneud, a pha gamau pellach y gallem eu cymryd i lywio cynnydd".

3. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith hyd yma yn y Chweched Senedd, a chanlyniadau'r adolygiad interim o'r Strategaeth a gynhaliwyd gennym ym mis Chwefror 2023. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'n Strategaeth.



2. Gwaith hyd yma

Aelodau'r pwyllgor

4. Arhosodd ein haelodaeth yr un fath rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Gorffennaf 2022. Ym mis Gorffennaf 2022, penododd y Senedd Sarah Murphy AS i'r Pwyllgor yn lle Mike Hedges AS.

Gwaith y Pwyllgor

5. Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Chwefror 2023 roedd ein gwaith yn cynnwys:¹



Datblygu a chytuno ar ein **strategaeth**.



Ymchwiliadau polisi, gan gynnwys: anhydraddoldebau iechyd meddwl; effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros y GIG ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth; rhyddhau o'r ysbyty ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai; deintyddiaeth; a gwasanaethau endosgopi. Gweler yr atodiad ar gyfer ein prif ganfyddiadau.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ymchwiliadau polisi i ganserau gynaeolegol, a chefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig.



Sesiynau untro i amlygu'r materion â blaenoriaeth neu lywio ein gwaith thematig, gan gynnwys: y dystiolaeth ar gyfer cynllun iechyd menywod a merched; blaenoriaethau ar gyfer adfer ar ôl COVID; diweddariadau ar COVID gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Gynghorydd Gwyddonol Iechyd a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru; sganio'r gorwel ym maes gofal cymdeithasol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru; a chynllunio ar gyfer y gaeaf.



Craffu ar **gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru** ar gyfer 2022-23 a 2023-24.

¹ Mae'r manylion am ein holl waith ar gael ar ein gwefan yn www.senedd.cymru/seneddiechyd



Tri **gwrandawriad cyn penodi** ac un **gwrandawriad ar ôl penodi** ar gyfer uwch-rolau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaethom gynnal gwrandawriad cyn penodi arall ym mis Mawrth 2023.



Craffu ar waith Gweinidogion a chyrrff sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys: dwy sesiwn gyffredinol i **graffu ar waith Gweinidogion** (roedd un ohonynt yn cynnwys awgrymiadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid); **strategaeth gweithlu ar y cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol** Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru; **craffu ar y cyd ar lechyd a Gofal Digidol Cymru** gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; a **craffu ar waith Prif Swyddog Nyrsio Cymru**.



Gwaith craffu deddfwriaethol, gan gynnwys: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y **Bil Cenedligrwydd a Ffiniau** a'r **Bil Iechyd a Gofal**; pedwar **fframwaith cyffredin dros dro**; effaith **Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diddymu)** ar iechyd a gofal cymdeithasol; a materion yn ymwneud â Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2023. Ar hyn o bryd rydym yn craffu ar **Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**, a byddwn yn edrych yn fuan ar y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn lansio ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.



Ymweliadau ag Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth Prifysgol De Cymru i lywio ein gwaith thematig ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; ac ymweld â **phrosiectau a gwasanaethau cymunedol** fel rhan o'n gwaith ar anghydraddoldebau iechyd meddwl.



Gwaith dilynol ar argymhellion Pwyllgor y Bumed Senedd, gan gynnwys gohebiaeth â'r Gweinidogion, ac ymchwiliadau i wasanaethau endosgopi a deintyddiaeth.



Gohebiaeth gyda'r Gweinidogion ac eraill ar amrywiaeth o bynciau.



Cyhoeddi **adroddiadau monitro tymhorol** i asesu'r cynnydd o ran cyflawni targedau Llywodraeth Cymru i adfer gofal wedi'i gynllunio.



Treialu **Maes o Ddiddordeb Ymchwil** fel mecanwaith i lywio gwaith posibl yn y dyfodol ar lythrennedd iechyd.

Cyfarfodydd y Pwyllgor

6. Sefydlwyd y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021. Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Ebrill 2022 dyrannwyd un cyfarfod diwrnod llawn bob pythefnos inni². O fis Ebrill 2022 ymlaen, rydym wedi cael un a hanner o gyfarfodydd diwrnod llawn bob pedair wythnos, a'r gallu i ddefnyddio hyd at un a hanner o slotiau diwrnod llawn wrth gefn bob pedair wythnos heb fod angen gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes.

7. Rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Chwefror 2023 fe wnaethom gynnal:

| | | |
|---|--|--|
|  30 o gyfarfodydd ffurfiol |  3 cyfarfod anffurfiol a digwyddiadau rhanddeiliaid dan arweiniad Aelodau |  2 ymweliad |
|---|--|--|

Sut rydym wedi gweithio

8. Ein rôl ni yw craffu ar waith Llywodraeth Cymru a dwyn Gweinidogion i gyfrif am bolisi, gwariant a deddfwriaeth mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein hymagwedd at y rôl hon wedi'i llywio gan yr uchelgeisiau a nodir yn ein Strategaeth. Er enghraifft:

- Wrth gynllunio gwaith, megis ein hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl a'n gwaith ar y cynllun iechyd menywod a merched, rydym yn **amseru ein gwaith i wneud y mwyaf o'n dylanwad posibl** ar bolisi a strategaeth Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn fframio'r cylch

² Heb gynnwys un 'wythnos warchoddedig' ar ddiwedd bob tymor pan oedd slotiau cyfarfod ar gael dim ond ar gais gan y Pwyllgor Busnes.

gorchwyl ar gyfer ein gwaith i **ganolbwyntio ar faterion, rhwystrau ac atebion penodol.**

- Rydym yn **adolygu ein rhaglen waith yn rheolaidd**, ac yn sicrhau ein bod yn **cadw hyblygrwydd** er mwyn ein galluogi i ymateb i amgylchiadau newidiol neu flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.
- Rydym yn ceisio meithrin **perthnasoedd cadarnhaol** gyda rhanddeiliaid. Rydym yn cyhoeddi gwaith am ein rhaglen waith sydd i ddod, mae ein Cadeirydd a swyddogion yn cyfarfod â rhanddeiliaid yn rheolaidd, a threialwyd Maes o Ddiddordeb Ymchwil fel mecanwaith newydd ar gyfer ymgysylltu ag academyddion ac ymchwilwyr.
- Rydym yn **mynd i'r afael â materion gwleidyddol dadleuol yn onest ac yn adeiladol** i geisio dod o hyd i dir cyffredin a chyfaddawdu lle bynnag y bo modd.
- Rydym yn archwilio ac yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer **gwaith ar y cyd a gwaith cydgysylltiedig â Phwyllgorau eraill**, gan gynnwys rhannu gwybodaeth drwy ein swyddogion; rhannu deunyddiau briffio; gohebiaeth rhwng pwyllgorau; gohebiaeth ar y cyd â Gweinidogion; argymhellion ar y cyd; gwahodd aelodau o Bwyllgorau eraill i gymryd rhan yn ein gwaith; a derbyn gwahoddiadau gan Bwyllgorau eraill i gymryd rhan yn eu rhai hwy. Gwnaethom hefyd ymgysylltu ag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl fel rhan o'n gwaith ar anghydraddoldebau iechyd meddwl.
- Yn ogystal â bwrw ymlaen â gwaith ar ein blaenoriaethau ein hunain ar gyfer y Chweched Senedd, rydym wedi gwneud **gwaith dilynol ar argymhellion allweddol** a wnaed gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd.

3. Themâu trawsbynciol

9. Mae ein strategaeth yn nodi pum thema drawsbynciol yr ydym wedi cytuno i'w hymgorffori ar draws ein gwaith. Mae'r themâu hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn edrych ar y darlun mawr, ac yn nodi lle gallai materion tebyg fod yn effeithio ar wahanol feysydd neu rannau o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

10. Yn ystod ein hadolygiad, buom yn myfyrio ar sut mae'r themâu wedi llywio ac wedi'u gwreiddio yn ein gwaith hyd yma.

Thema 1: Rhoi pobl wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol

11. Rydym yn ymgorffori ystyriaeth o brofiadau pobl a chymunedau y mae polisi, gwariant a deddfwriaeth yn effeithio arnynt yn ein gwaith. Mae hyn yn llywio cylch gorchwyl ein gwaith, a'r ffordd yr ydym yn casglu tystiolaeth i wneud yn siŵr ein bod yn annog ac yn hwyluso profiad ac arbenigedd technegol, clinigol, academiaidd, polisi a bywyd amrywiol. Er enghraifft:

- Roedd **pobl, a'u profiadau byw**, wrth wraidd ein gwaith ar anghydraddoldebau iechyd meddwl, a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen ei wneud i feithrin amgylcheddau ac amgylchiadau lle gall pobl ffynnu. Yn yr un modd, yn ein gwaith ar ryddhau o'r ysbyty ac effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros y GIG, gwnaethom ganolbwyntio ar sut mae'r materion dan sylw yn effeithio ar bobl, a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a pha gefnogaeth, cyngor a chymorth y gallai fod eu hangen arnynt.
- Ar draws ein gwaith rydym wedi **defnyddio dulliau gwahanol o gasglu tystiolaeth**, gan gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ffurfiol, trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid, cyfweiliadau ac astudiaethau achos, grwpiau ffocws gyda phobl o wahanol grwpiau a chymunedau a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ymweliadau, grŵp cynghori ar-lein, a defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i gasglu cwestiynau a awgrymir i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan y cyhoedd a rhanddeiliaid. Rydym yn cynllunio ein proses o gasglu tystiolaeth i fod yn gymesur, yn ychwanegu gwerth ac yn cael effaith, ac i sicrhau bod pobl sy'n rhannu eu profiadau yn cael eu cefnogi'n briodol ac yn ei chael yn brofiad gwerth chweil.
- Rydym hefyd wedi gwneud defnydd o **gyfleusterau o bell, hybrid ac wyneb yn wyneb** fel y bo'n briodol ar gyfer pwy rydym yn ymgysylltu â hwy, a'r pwnc yr ydym ei drafod gyda hwy. Mae hyn yn helpu i hwyluso tystiolaeth amrywiol, lleihau'r effaith ar gleifion pan fyddwn yn clywed gan arbenigwyr clinigol, adlewyrchu ethos cynhwysol y Senedd, a sicrhau bod ein gwaith craffu ar waith Gweinidogion yn cael ei wneud yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Rydym yn **cyfleu** ein gwaith mewn gwahanol ffyrdd i gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd, gan gynnwys ein gwefan, Twitter a chyfryngau cymdeithasol eraill, datganiadau i'r cyfryngau, erthyglau blog, negeseuon e-bost diweddarau rhestrau postio, galwadau wedi'u

targedu am dystiolaeth, adroddiadau, llythyrau, a dadleuon yn y Cyfarfod Llawn. Rydym hefyd wedi treialu fformatau adroddiadau mwy hygyrch, gan gynnwys fersiynau ar-lein ac MS Word.

Thema 2: Arloesi ar gyfer gwelliant

12. Rydym wedi ystyried materion sy'n ymwneud ag arloesi drwy gydol ein gwaith hyd yma, gan gynnwys sut y caiff arloesedd ei ariannu a pha effaith y mae'n ei chael, a yw arloesiadau llwyddiannus yn cael eu rhannu a'u gwreiddio'n gyson, a rôl arloesedd digidol yn y sectorau iechyd a gofal. Er enghraifft:

- Wrth graffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru rydym wedi archwilio'r **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal**, a'i rôl wrth yrru'r broses o gyflwyno arloesedd a thrawsnewid yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd wedi ystyried materion yn ymwneud â gweithrediad ac effaith y Gronfa yn ein gwaith ar ryddhau o'r ysbyty ac anghydraddoldebau iechyd meddwl.
- Rydym wedi clywed yn gyson, gan gynnwys yn ystod ein gwaith ar amseroedd aros ac anghydraddoldebau iechyd meddwl, er bod llawer o brosiectau peilot arloesol, yn rhy aml o lawer **nid yw cyllid yn cael ei roi ar sylfaen gynaliadwy, nid yw arfer da yn cael ei rannu'n gyson, ac nid yw cynlluniau peilot sy'n dangos canlyniadau cadarnhaol yn cael eu prif ffrydio na'u cyflwyno ledled Cymru.**
- Rydym wedi ystyried materion yn ymwneud â **thechnolegau digidol a rhannu gwybodaeth a mynediad at wybodaeth** mewn nifer o'n hymchwiliadau, gan gynnwys effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros a rhyddhau o'r ysbyty. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Cyhoeddus i gynnal **gwaith craffu ar y cyd ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar.**

Thema 3: Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

13. Rydym wedi ystyried materion sy'n ymwneud â'r gweithlu fel rhan o bron bob elfen o'n gwaith, gan gynnwys sesiynau cyffredinol i graffu ar waith Gweinidogion, craffu ar y gyllideb, craffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, ac ymchwiliadau polisi, yn ogystal â chynnal rhywfaint o weithgarwch sy'n canolbwyntio'n benodol ar y gweithlu. Er enghraifft:

- Gwnaethom gasglu tystiolaeth ysgrifenedig i lywio sesiwn graffu ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar eu

strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn bwriadu dychwelyd at y gwaith hwn yn ddiweddarach yn nhymor y Senedd.

- Mae ein hymchwiliadau polisi ar ryddhau o'r ysbyty, effaith yr ôl-groniad o rn amseroedd aros, anghydraddoldebau iechyd meddwl³, deintyddiaeth a gwasanaethau endosgopi i gyd wedi ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae materion sy'n dod i'r amlwg yn gyson wedi cynnwys **capasiti, recriwtio, cadw staff, llesiant staff, amser ar gyfer hyfforddi a datblygu, a chynllunio gweithlu strategol.**
- Mewn perthynas â'r **gweithlu gofal cymdeithasol** yn benodol, rydym wedi clywed pryderon yn gyson ynghylch bregusrwydd y sector, a'r angen i wella cyflogau, telerau ac amodau fel mater o frys. Yn ogystal â chodi'r materion hyn drwy gydol ein gwaith craffu, gwnaethom gynnal sesiwn sganio'r gorwel gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Tachwedd 2022. Rydym yn croesawu ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 i roi diweddariadau rheolaidd inni ar waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a gwaith i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol.
- Gwnaethom ymweld ag Ysgol Nyrso a Bydwreigiaeth Prifysgol De Cymru ym mis Rhagfyr 2022 i weld y cyfleusterau, ac i **gwrdd â staff, myfyrwyr ac academyddion** i glywed yn uniongyrchol am y materion y maent yn eu hwynebu, a llywio sesiwn dystiolaeth gyda Phrif Swyddog Nyrso Cymru ym mis Ionawr 2023.
- Mae'r **gwrandawiadau cyn ac ar ôl penodi** rydym wedi'u cynnal wedi darparu cyfleoedd i graffu ar yr ymgeiswyr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer uwch-rolau allweddol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chodi materion ynghylch gwaith cynllunio olyniaeth ar gyfer y rolau arwyddocaol hyn a'r broses penodiadau cyhoeddus ei hun gyda Llywodraeth Cymru ac fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i benodiadau cyhoeddus.

³ Gan gynnwys grwpiau ffocws gyda grwpiau gweithlu rheng flaen allweddol.

Thema 4: Anghydraddoldebau ac anghyfiawnderau iechyd

14. Rydym wedi ymgorffori archwiliad o brofiadau gwahaniaethol grwpiau a chymunedau gwahanol, gan gynnwys yr anghydraddoldebau, yr anghyfiawnderau a'r rhwystrau y gallent eu hwynebu, yng nghwmpas llawer o'n gwaith. Mae hyn yn llywio'r ffordd yr ydym yn fframio ein hymchwiliadau, a'n dulliau wedi'u teilwra o gasglu tystiolaeth. Er enghraifft:

- Roedd ein hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl yn canolbwyntio'n benodol ar faterion yn ymwneud ag anghydraddoldebau iechyd, a'r hyn sydd angen ei wneud i ddileu **rhwystrau sy'n effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau** a chreu a meithrin amgylcheddau ac amgylchiadau lle gall pawb ffynnu. Er mwyn cadw lleisiau amrywiol a phrofiadau byw wrth wraidd ein gwaith wrth inni adrodd ac ystyried ymateb Llywodraeth Cymru, rydym wedi sefydlu **grŵp cyngori ar-lein** sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd a chymunedau gwahanol.
- Mae ymchwiliadau eraill, gan gynnwys effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros a deintyddiaeth, wedi cynnwys cylch gorchwyl penodol i'n helpu i archwilio **effaith gwahanol bolisiau, deddfwriaeth a gwariant ar wahanol grwpiau** (gan gymryd i ystyriaeth ffactorau demograffig a rhai fel anfantais a thlodi).
- Rydym wedi pwysleisio'n rheolaidd y pwysigrwydd o **ddata wedi'u dadgyfuno**.
- Rydym hefyd wedi defnyddio ein gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru i ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn **targedu adnoddau** i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

Thema 5: Ailosod ar ôl y pandemig

15. Mae'r pandemig, yr ymateb iddo ac adfer ohono wedi gosod y cyd-destun ar gyfer ein holl waith, gan gynnwys sesiynau craffu cyffredinol ar waith Gweinidogion, craffu ar y gyllideb, craffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, ac ymchwiliadau polisi. Er enghraifft:

- Rydym wedi derbyn dau **ddiweddariad ffurfiol ar y pandemig** gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, y Prif Gynghorydd Gwyddonol Iechyd a Chell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi derbyn **briffiadau preifat** rheolaidd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol a'i huwch-swyddogion ar y pandemig, y pwysau ar y GIG, a'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, ac maent wedi neilltuo amser yn ystod sesiynau tystiolaeth Gweinidogol fel rhan o waith arall i ofyn **cwestiynau amserol** i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am COVID (a materion eraill).

- Ar ddechrau tymor y Senedd hon, gwnaethom gynnal **galwad dreigl am dystiolaeth ysgrifenedig** ar effaith y pandemig COVID-19, a sut y cafodd ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gwnaethom hefyd gynnal trafodaeth breifat gydag arbenigwyr academiaidd i nodi ac archwilio materion o bwys yn ymwneud ag **adfer ar ôl COVID**.
- Ym mis Ebrill ac ym mis Awst 2022 buom yn gohebu â Chadeirydd **Ymchwiliad COVID y DU** a Phrif Weinidog Cymru mewn perthynas â chwmpas yr Ymchwiliad, a sut y byddai Cymru a materion Cymreig yn cael sylw yn y modiwlau cychwynol.
- Rydym wedi **cynnwys materion sy'n ymwneud â'r pandemig yng nghwmpas gweithgarwch perthnasol a gwaith ymchwiliad**, gan gynnwys ein hymchwiliadau dilynol i ddeintyddiaeth a gwasanaethau endosgopi, yn ogystal â'r sesiwn sganio'r gorwel a gynhaliwyd gennym gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i drafod materion sy'n effeithio ar y gweithlu a'r sector gofal cymdeithasol.
- Yn dilyn ein hymchwiliad i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros y GIG, gwnaethom gynnal trafodaeth â rhanddeiliaid i drafod safbwyntiau ar raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio, ac rydym yn cyhoeddi **adroddiadau monitro tymhorol i asesu'r cynnydd ar gyflawni targedau adfer y rhaglen**.

4. Blaenoriaethau strategol

Blaenoriaethau blwyddyn 1

16. Mae ein Strategaeth yn nodi saith blaenoriaeth ar gyfer blwyddyn 1 y Chweched Senedd. Mae ein gwaith wedi mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd.

COVID: cadw golwg ar y pandemig, ac ailosod ar ôl COVID

17. Fel y nodir uchod, yn ogystal â darnau penodol o waith, rydym wedi ymgorffori materion yn ymwneud ag effaith y pandemig a'r ymateb iddo, ac adfer ar ôl COVID yng nghwmpas ein gwaith.

Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

18. Fel y nodir uchod, mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn un o'n themâu trawsbynciol, ac mae wedi bod yn rhan allweddol o lawer o'n gwaith hyd yma.

Amseroedd aros

19. Yn ogystal ag ymchwiliad polisi ar effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros, a oedd yn canolbwyntio ar yr effaith ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth ac yn archwilio profiadau byw pobl drwy gyfweliadau manwl a gynhaliwyd gan y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, rydym wedi:

- Casglu tystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid ar eu safbwyntiau ar gynllun mis Ebrill 2022 Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio, a chynhaliwyd trafodaeth anffurfiol â rhanddeiliaid.
- Cyhoeddi adroddiadau tymhorol yn monitro cynnydd tuag at y pum uchelgais allweddol a nodir yng nghynllun Llywodraeth Cymru.
- Codi materion yn ymwneud ag amseroedd aros gyda'r Gweinidog, gan gynnwys drwy ohebiaeth a sesiynau craffu cyffredinol ar waith Gweinidogion.
- Ystyried materion yn ymwneud ag amseroedd aros fel rhan o ymchwiliadau polisi eraill, gan gynnwys deintyddiaeth, gwasanaethau endosgopi, ac anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Llif cleifion drwy ysbytai, gyda ffocws cychwynol ar ryddhau o'r ysbyty

20. Gwnaethom gynnal ymchwiliad i ryddhau cleifion o'r ysbyty a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai rhwng hydref 2021 a haf 2022. Codwyd materion gennym hefyd yn ymwneud â rhyddhau o'r ysbyty yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Iechyd meddwl

21. Gwnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd waith arwyddocaol a sylweddol ar iechyd meddwl, ac roeddem yn awyddus i archwilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran rhoi eu hargymhellion ar waith, ac i gynnal ein gwaith ein hunain mewn meysydd nad ydynt wedi'u harchwilio o'r blaen. Rydym wedi:

- Ar y cyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gofyn am ddiweddariadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Bumed Senedd sy'n dal i gael eu hystyried heb eu cyflawni, pa waith sy'n cael ei wneud i'w datblygu, a sut mae hyn yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.
- Cynnal ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl. Yn unol â'n themâu trawsbynciol o anghydraddoldebau iechyd a rhoi pobl wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol, gwnaethom ganolbwyntio ar anghydraddoldebau iechyd meddwl. Gan ddechrau gyda chylch gorchwyl eang, gwnaethom ddefnyddio'r dystiolaeth gychwynnol a gasglwyd yn ysgrifenedig, grwpiau ffocws gyda phobl o wahanol gefndiroedd a chymunedau, a sesiynau tystiolaeth cyflwyno'r cyd-destun i nodi pedair thema allweddol. Gwnaethom archwilio'r themâu hyn drwy dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig wedi'i thargedu, ymweliad â gwasanaethau cymunedol, trafodaethau anffurfiol â rhanddeiliaid, a grwpiau ffocws gweithlu. Er mwyn cadw pobl wrth wraidd yr ymchwiliad, gwnaethom sefydlu grŵp cynghori profiad byw ar-lein yn ystod y cyfnodau tystiolaeth ac adrodd Gweinidogol.
- Ymgorffori ystyriaeth o iechyd meddwl yn ein gwaith ymchwilio, er enghraifft, edrychodd ein gwaith ar effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar anghenion cymorth iechyd meddwl pobl sy'n wynebu arosiadau hir am ddiagnosis a thriniaeth, roedd ein gwaith ar wasanaethau endosgopi yn cynnwys ystyried anghenion iechyd meddwl pobl sydd wedi cael diagnosis o syndrom Lynch, ac amlygodd ein gwaith ar ddeintyddiaeth yr effaith ar iechyd meddwl y gweithlu.

Gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf o ran iechyd a gofal cymdeithasol

22. Yn ystod gaeaf 2021-22, gwnaethom gynnal galwad wedi'i dargedu am dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol i lywio

sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar gynllunio ar gyfer y gaeaf, ac ar ôl hynny gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog.

23. Codwyd materion gennym yn ymwneud â pharodrwydd ar gyfer y gaeaf ar gyfer 2022-23 yn ystod ein sesiwn graffu gyffredinol ar waith Gweinidogion ym mis Hydref 2022. Buom hefyd yn trafod y pwysau ar y sectorau iechyd a gofal gyda Gweinidogion ym mis Ionawr 2023 wrth graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Y gyllideb

24. Rydym wedi craffu ac adrodd ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24.

Blaenoriaethau posibl ar gyfer blynyddoedd 2 i 5

25. Nododd ein Strategaeth hefyd feysydd posibl â blaenoriaeth ar gyfer gweddill tymor y Senedd. Mae'r materion hyn yn parhau i gael eu hadolygu fel blaenoriaethau posibl, ac rydym eisoes wedi dechrau ystyried rhai ohonynt yn ystod ein gwaith hyd yma.

Gofal sylfaenol, gan gynnwys ehangu dealltwriaeth o'r ystod o wasanaethau, cyfeirio, rhagfarn anymwybodol, a llythrennedd iechyd

26. Roedd ein hymchwiliad i effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros yn cynnwys argymhellion ynghylch codi ymwybyddiaeth o'r cymorth posibl sydd ar gael gan wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol ar wahân i feddygon teulu.

27. Yn hydref 2022, gwnaethom dreialu Maes o Ddiddordeb Ymchwil ar lythrennedd iechyd. Bydd yr ymatebion i'r Maes o Ddiddordeb Ymchwil yn helpu i lywio unrhyw waith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac atal

28. Yn ystod ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, buom yn archwilio gyda'r Gweinidogion sut y byddai dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn cefnogi ac yn llywio'r agenda iechyd ataliol.

Iechyd menywod

29. Gwnaethom gynnal sesiwn untro ym mis Mawrth 2022 i drafod yr anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan fenywod a'r dystiolaeth ar gyfer cynllun

iechyd menywod a merched. Aethom ati i ddilyn hyn â gohebiaeth barhaus â'r Gweinidog, ac rydym wrthi'n cynnal ymchwiliad i ganserau gynaeolegol.

Mynediad at wasanaethau ar gyfer cyflyrau cronig hirdymor

30. Gwnaethom lansio ymchwiliad i gefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig yn ystod gwanwyn 2023. Mae hwn yn faes eang, ac felly mae cam cyntaf ein gwaith yn cynnwys galwad am dystiolaeth ysgrifenedig; byddwn yn defnyddio'r ymatebion i nodi themâu a materion o bwys i'w harchwilio yn ystod ail gam ein hymchwiliad.

Cefnogaeth a gwasanaethau i ofalwyr di-dâl

31. Rydym wedi trafod materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl drwy gydol sawl agwedd ar ein gwaith hyd yma, gan gynnwys y canlynol:

- Roedd ein hymchwiliad i ryddhau o'r ysbyty yn edrych ar gefnogaeth, cymorth a chyngor i deuluoedd a gofalwyr di-dâl yn ystod y broses ryddhau, a gyda chefnogaeth Cymdeithas Alzheimer's Cymru cawsom dystiolaeth lafar gan ofalwr di-dâl.
- Roedd ein hadroddiad ar effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros yn cynnwys ystyried yr effaith ar ofalwyr di-dâl, a'u hanghenion, gan gynnwys cymorth ariannol. Roedd yr unigolion a rannodd eu straeon drwy gyfweiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cynnwys dau ofalwr di-dâl.
- Fel rhan o'n hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, gwnaethom gynnal grŵp ffocws gyda gofalwyr ifanc.
- Rydym wedi ystyried materion yn ymwneud â gofalwyr di-dâl, a'r cymorth sydd ar gael iddynt, fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24.
- Yn ystod haf 2022, cawsom awgrymiadau gan ofalwyr di-dâl ar gyfer cwestiynau i'w gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel rhan o'n gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidogion. Roedd y materion a godwyd gennym gyda'r Gweinidogion yn cynnwys effaith costau byw, cymorth i ofalwyr di-dâl (gan gynnwys gofal seibiant a chymorth ariannol), a'r pwysau y mae gofalwyr di-dâl yn eu hwynebu.

- Buom yn trafod materion sy'n effeithio ar ofalwyr di-dâl ag Arolygiaeth Gofal Cymru fel rhan o'n sesiwn sganio'r gorwel ym mis Tachwedd 2022, ac ar ôl hynny gwnaethom ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

32. Yn ystod haf 2023 byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth gydag academyddion ar werthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a fydd yn helpu i lywio penderfyniadau ar waith pellach yn y maes hwn.

5. Casgliadau

33. Daeth ein hadolygiad interim cyntaf o'n Strategaeth ym mis Chwefror 2023 i'r casgliadau a ganlyn:

Conclusion 1. Rydym yn fodlon bod ein Strategaeth ar gyfer y Chweched Senedd, gan gynnwys y weledigaeth, mesurau, themâu trawsbynciol ac uchelgeisiau ar gyfer sut y byddwn yn gweithio yn parhau i fod yn briodol i arwain a llywio ein gwaith.

Conclusion 2. Byddwn yn parhau i adolygu ein blaenraglen waith a'n blaenoriaethau posibl drwy gydol y Chweched Senedd, gan gynnwys y materion a nodwyd yn ein Strategaeth ym mis Rhagfyr 2021, materion newydd sy'n dod i'r amlwg dros amser, a'r rhai a awgrymwyd inni gan y cyhoedd, rhanddeiliaid, Aelodau o'r Senedd a'n swyddogion. Ni fydd digon o gapasiti yn ein rhaglen waith i wneud ymchwiliadau penodol neu waith manwl ar bob mater; lle y bo'n briodol gallwn ddefnyddio dulliau eraill, gan gynnwys gohebiaeth, sesiynau untro neu sesiynau craffu ar waith Gweinidogion. Efallai y byddwn hefyd yn penderfynu peidio â gwneud gwaith ar rai materion.

Conclusion 3. Rydym yn bwriadu cynyddu'r ffocws yn ein gwaith ar ystyried a yw'r polisi, gwariant neu ddeddfwriaeth yr ydym yn edrych arnynt yn effeithio'n wahanol ar wahanol grwpiau neu gymunedau—er enghraifft menywod, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu bobl anabl.

Conclusion 4. Mae argaeledd a chadernid data, boed yn ymwneud â'r gweithlu, cleifion neu wasanaethau, wedi bod yn fater allweddol sy'n dod i'r amlwg o lawer o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud. Rydym yn bwriadu adolygu ein gwaith hyd yma i nodi lle gall fod materion neu rwystrau cyffredin y mae angen eu datrys.

Atodiad: crynodeb o'r prif ganfyddiadau

34. Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r prif ganfyddiadau o'n hymchwiliadau polisi hyd yma.

Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru (Ebrill 2022)

Ein ffocws

35. Mae'r rhestrau aros ar gyfer apwyntiadau diagnostig a therapi ac ar gyfer triniaeth lawfeddygol yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig COVID-19. Mae mynd i'r afael â'r ôl-groniad yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ond mae maint yr her yn golygu y gallai gymryd y cyfan o'r Chweched Senedd.

36. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar effaith yr ôl-groniad ar bobl sy'n aros, gan gynnwys y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael iddynt, rôl y trydydd sector, effeithiolrwydd negeseuon a chyfathrebu, i ba raddau y mae anghydraddoldebau yn bodoli yn yr ôl-groniad, a chynlluniau adfer gofal a gynlluniwyd yng Nghymru.

Ein hargymhellion

37. Y neges allweddol yn ein hadroddiad oedd galwad ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei chynllun i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros (a ragwelwyd bryd hynny) yn cynnwys ffocws ar gefnogi cleifion i aros yn iach.

38. Gwnaethom gyfanswm o 27 o argymhellion, yn ymdrin â materion sy'n cynnwys: digonolrwydd y wybodaeth i gleifion am eu hanghenion clinigol; ymwybyddiaeth y cyhoedd o symptomau canser; canfyddiadau'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt; rôl gofal iechyd preifat a gomisiynir gan y GIG; cyllid tymor byr i'r trydydd sector; rheoli poen; cyfathrebu effeithiol a hygyrch a dilysu rhestrau aros; gwydnwch ariannol gofalwyr; cynnwys teuluoedd a gofalwyr wrth gynllunio gofal a thriniaeth; data wedi'u dadgyfuno; rhannu gwybodaeth a mynediad at TGCh; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd; materion gweithlu; ac arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

39. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 26 o'n hargymhellion yn llawn, ac un yn rhannol.

Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai (Mehefin 2022)

Ein ffocws

40. Mae llif da o ran cleifion yn gwella ansawdd gofal i gleifion, ond mae nifer o ffactorau, gan gynnwys problemau capasiti yn y system gofal cymdeithasol, yn achosi oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae hyn yn golygu bod rhai cleifion sy'n barod i gael eu rhyddhau yn aros yn yr ysbyty. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar yr unigolyn, ac ar lif cleifion drwy'r ysbyty, ac mae'n cyfrannu at bwysau ar adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a'r gwasanaethau ambiwlans.

41. Canolbwyntiodd ein gwaith ar ryddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai. Gwnaethom ystyried maint y mater a lle mae pwysau, effaith oedi, amrywiadau mewn arferion ledled Cymru, y cymorth, yr help a'r cyngor sydd ar gael i deuluoedd a gofalwyr di-dâl, beth sydd wedi gweithio, a beth sydd ei angen i alluogi pobl i ddychwelyd adref ar yr adeg iawn gyda'r gofal a'r cymorth cywir.

Ein hargymhellion

42. Thema ganolog yn ein hadroddiad oedd y pwysau digynsail a wynebwyd gan y gweithlu iechyd a gofal a chan ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig. Roedd yn amlwg bod angen mynd i'r afael â chyfathrebu gwael a diffyg integreiddio a gweithio cydgysylltiedig er mwyn gweld gwelliannau o ran llif cleifion. Yn ogystal, roedd argyfwng y gweithlu gofal cymdeithasol a diffyg capasiti gwasanaethau gofal cymdeithasol ymysg y prif achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Daethom i'r casgliad ei bod yn annhebygol y gwelwn newid gwirioneddol oni bai bod camau radical yn cael eu cymryd i ddiwygio'r ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu a'i wobrwyo ynghyd â'r ffordd y telir amdano.

43. Gwnaethom 25 o argymhellion, yn ymdrin â materion sy'n cynnwys: diweddariadau cynnydd; effaith cyllid trawsnewid; data; targedau ym maes gofal brys a gofal argyfwng a'r Rhaglen Chwe Nod; cyllid ar gyfer gwasanaethau ail-alluogi, therapi yn y cartref a gwasanaethau adsefydlu; argaeledd cyfleusterau cam-i-fyny a cham-i-lawr a llety gofal canolraddol; argaeledd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal; tâl, telerau ac amodau staff gofal cymdeithasol, gan gynnwys tâl salwch; recriwtio ym maes gofal cymdeithasol; taliadau uniongyrchol; hawliau gofalwyr a gwasanaethau iddynt; hyfforddiant dementia a rhyddhau pobl â dementia; rôl

timau fferylliaeth; cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr; a rhannu gwybodaeth a diogelu data.

Ymateb Llywodraeth Cymru

44. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 20 o'r argymhellion yn llawn, a'r pump arall mewn egwyddor.

Anghydraddoldebau iechyd meddwl (Rhagfyr 2022)

Ein ffocws

45. Mae cysylltiad anorfod rhwng iechyd meddwl a'n hiechyd corfforol, emosiynol, ac ysbrydol, a'r amgylchiadau rydym yn byw ynddynt. Roedd anghydraddoldebau iechyd meddwl yn bodoli cyn y pandemig COVID-19, ond mae'r pandemig wedi eu gwaethygu. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn effeithio ar nifer fawr o bobl o wahanol rannau o'r boblogaeth:

- Mae rhai grwpiau o bobl yn wynebu risg anghymesur o iechyd meddwl gwael. Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau ehangach mewn cymdeithas.
- Gall y grwpiau sydd â lefelau arbennig o uchel o iechyd meddwl gwael wynebu'r anawsterau mwyaf wrth gael mynediad at wasanaethau.
- Pan mae'r bobl yn cael cefnogaeth, mae eu profiadau a'u canlyniadau yn aml yn waeth.

46. Canolbwyntiodd ein gwaith ar sut y gellir mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o'r fath.

Ein hargymhellion

47. Prif neges ein hadroddiad oedd na fydd iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth yn gwella, a gall barhau i ddirywio mewn gwirionedd, oni bai bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i gydnabod a mynd i'r afael ag effaith trawma, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithas ac achosion ehangach iechyd meddwl gwael. Gwnaethom alw am i'r neges hon, ynghyd ag uchelgais glir i leihau anghydraddoldebau iechyd meddwl, fod yn ganolog i strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru.

48. Gwnaethom 27 o argymhellion, a oedd yn ymdrin â materion sy'n cynnwys: gwerthusiad gonest o ba ysgogiadau polisi, deddfwriaethol ac ariannol sydd gan

Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer trechu tlodi a phenderfynyddion cymdeithasol eraill iechyd meddwl; ymchwil i ddatganoli lles; map ffordd ar gyfer gwella iechyd meddwl ymhlith pobl niwrowahanol; mynediad at gyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg; mesurau ar gyfer y fframweithiau presgripsiynu cymdeithasol sy'n ystyriol o drawma i Gymru; llesiant ac amrywiaeth y gweithlu; asesiadau o effaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar iechyd meddwl a lles; a data wedi'i ddadgyfuno.

Ymateb Llywodraeth Cymru

49. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 17 o'n hargymhellion yn llawn, a naw arall mewn egwyddor. Gwrthododd un argymhelliad.

Deintyddiaeth

Ein ffocws

50. Gwnaeth ein hymchwiliad ddilyn gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn y Bumed y Senedd yn 2019. Gwnaethom ystyried a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i bontio'r bwlch o ran anghydraddoldebau iechyd y geg ac ailadeiladu deintyddiaeth yng Nghymru yn dilyn y pandemig COVID-19 ac yng nghyd-destun costau byw cynyddol.

Ein hargymhellion

51. Daethom i'r casgliad ei bod hi'n anochel bod COVID-19 wedi cael effaith ddifrifol ar allu pobl i gael gwasanaethau deintyddiaeth drwy'r GIG, ond ei bod yn amlwg bod problemau hirsefydlog yn bodoli cyn y pandemig. Os ydym wir am fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth i bobl geisio cael gwasanaethau deintyddiaeth drwy'r GIG, mae'n rhaid i ni ddefnyddio adnoddau mewn ffordd sy'n targedu'r manau lle mae'r anghenion mwyaf. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd gan nad yw'n glir faint o bobl sy'n aros i weld deintyddion y GIG, na faint sydd wedi methu â mynd ar restr aros ar gyfer deintydd y GIG. Roeddem hefyd yn pryderu am effaith y pandemig ar y gweithlu deintyddol, ac am forâl isel yn y sector.

52. Gwnaethom 16 o argymhellion, yn ymdrin â materion sy'n cynnwys: ymgynghori ar newidiadau i'r contract deintyddol; y cydbwysedd rhwng atal, gofal yn seiliedig ar anghenion, darpariaeth frys, a gweld cleifion newydd; rhestrau aros canoledig; gwybodaeth hygyrch am sut i ymuno â rhestr aros; casglu data a systemau TGCh; rhwystrau sy'n effeithio ar grwpiau agored i niwed; y gweithlu;

ysgol ddeintyddol ar gyfer Gogledd Cymru; rhaglenni atal megis Pwysau Iach: Cymru Iach, Cynllun Gwên a Gwên am Byth; fflworeiddio; a chyllid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

53. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 11 o'n hargymhellion yn llawn, a thri arall mewn egwyddor. Gwrthododd ddau argymhelliad.

Endosgopi (Mawrth 2023)

Ein ffocws

54. Gwnaeth ein hymchwiliad byr ddilyn gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn y Bumed y Senedd yn 2019. Gwnaethom ystyried pa gamau pellach oedd eu hangen efallai er mwyn rhoi'r cynllun endosgopi cenedlaethol ar waith, lleihau amseroedd aros ac, yn y pen draw, gwella canlyniadau cleifion a chyfraddau goroesi.

Ein hargymhellion

55. Daethom i'r casgliad bod capasiti ym maes endosgopi dan bwysau sylweddol cyn y pandemig, ac mae atal gwaith difrys yn 2020 wedi arwain at ôl-groniad mwy gyda chleifion yn aros yn hirach am brofion diagnostig. Mae mesurau i gynyddu capasiti ac adennill tir o ran yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth endosgopi wedi cael rhywfaint o lwyddiant. Ond, roeddem yn pryderu bod llawer o'r gwelliant wedi digwydd o ganlyniad i fentrau drud, tymor byr megis mewnoli ac allanoli. Gwnaethom gytuno â rhanddeiliaid bod angen atebion mwy cynaliadwy.

56. Gwnaethom chwe argymhelliad, a oedd yn ymdrin â materion sy'n cynnwys: rôl a llywodraethiant Gweithrediaeth GIG Cymru; academi endosgopi clinigol; rhoi sylfaen fwy cynaliadwy i wasanaethau endosgopi; amrywiadau ym mholisiau adnoddau dynol byrddau iechyd; arweinyddiaeth mewn arloesi; a chymorth i bobl â chyflyrau genetig fel Syndrom Lynch (gan gynnwys sut y caiff cymorth o'r fath ei deilwra i anghenion grwpiau penodol).

Ymateb Llywodraeth Cymru

57. Derbyniodd Llywodraeth Cymru ein hargymhellion yn llawn.